# Eisteddfod Penrhyn-coch 2014

## Cystadleuaeth y Gadair

Derbyniwyd 11 o gerddi i'r gystadleuaeth eleni sydd yn nifer teilwng iawn gan, efallai, na fyddai'r testun yn apelio at bawb. Roeddwn yn falch o weld safon arbennig o dda i'r cerddi. Roedd hon yn gystadleuaeth ardderchog heb ddim un cerdd wan. Rhaid canmol pob un o'r beirdd am eu hymdrechion. Dyma air byr am yr 11.

**Mali**
Cerdd odledig sy'n canu'n rhwydd a hyfryd. Mae'r 4 llinell gyntaf yn ein hatgoffa o "Lle Bach tlws" gan T. Gwynn Jones. Mae'n gerdd iawn, ond nid oes dim newydd wedi ei ddweud yma o'i chymharu efo rhai eraill yn y gystadleuaeth.

**Gwernydd**
Mae Gwernydd i'w longyfarch ar gyflwyno awdl fer. Yn y cywydd agoriadol, disgrifia'r ofnau sydd yn dod i'r ifanc mewn coedwig, rhyw ysbryd drwg, efallai yr isymwybod. Yna cyflwynir i ni goedwig go iawn, sef Mametz Wood lle y collodd nifer fawr o filwyr Prydeinig eu bywydau yn ystod y Rhyfel Mawr. Ceir cyferbyniad pur effeithiol o'r bywyd gwledig lle mae'r llanciau'n gweithio cyn y rhyfel a'r och a'r gwae ar faes y gad. Teimlaf fod straen ar y cynganeddu weithiau, hynny yn effeithio ar rediad y meddwl gan wneud y mynegiant yn niwlog. Sut bynnag, mae yma linellau digon cymeradwy yn dangos cynganeddu cywrain. Gwaith cymeradwy a gobeithiol.

(Roeddwn yn amheus o gywirdeb y llinellau canlynol):
"O glywed cri'r bwc<u>i</u> b<u>o</u>" – proest lefarog
"Yn u<u>ns</u>yth, syllaf, henwr" – ns heb ateb yn he<u>n</u>wr
"O <u>g</u>aeau gwair i faes y gad" – 'g' gyntaf heb ei hateb, hefyd 8 sill yn lle 7 sill
"I'w <u>m</u>ynwesu fel mân <u>us</u>" – cam acennu

**Hafod**
Cân ddisgrifiadol am goedwig a enwyd Gallt Dihanog ger olion Plas Hafod Uchtryd, Pont-rhyd-y-groes. Doeddwn i heb glywed am Hafod Uchtryd o'r blaen, felly bu rhaid ymchwilio a mwynhau darllen yr hanes. Megis Coed Glyn Cynon gynt, fe gliriwyd y coed cynhenid ond yna planwyd fforest fytholwyrdd. Mae'n gân grefftus mewn mydr ac odl gyda'r gorau o'i math yn y gystadleuaeth. Yn wir, ni ellir nodi unrhyw wendid ynddi a diolch am gael rhannu gofid y bardd. Yn anffodus i Hafod, mae yna gerdd neu ddwy fwy pwerus yn y gystadleuaeth.

**Y Barcud Coch**

Tair soned a geir yma. Mae'r bardd yn cofio am fforest dyddiau ieuenctid ac am y peryglon. Yn gynnil, awgrymir i ni mai fforest a chysgodion niweidiol yr oes ydyw ac mae hi yno hyd heddiw. Mae'r llinellau yn rhedeg yn esmwyth hyfryd ond gwylied rhag gor-ddefnyddio 'fi' a hynny yn y ffurf o gwyrais/profais/cymrais/gwelais – rhain i gyd yn yr un pennill. Hefyd, gwylied rhag defnyddio yr un odl ddwywaith yn y soned gyntaf. Fel arall, maent yn sonedau cymeradwy a'r ddawn o fynegi yn amlwg yma.

**Hafan**

Penillion digon crefftus ac yn cynnwys rhai darluniau gwirioneddol dda o fywyd natur yn y tymhorau a rheini yn adlewyrchu wedd y goedwig. Teimlo bod gormod o ddarluniau natur yma, a rheini heb fod yn ein tywys i fywyd tywyll y goedwig ar brydiau, hynny yw, does dim byd newydd yma. Ond mwynhad oedd darllen y penillion cyffrous hyn.

**Dol Ystwyth**

Cân arall yn disgrifio natur drwy'r tymhorau yn y goedwig. Mae gan y bardd afael sicr ar rhythm llinellau a'r ddawn i dynnu llun yn artistig iawn ar dro. Yn wir, gellid dyfynnu o unrhyw bennill i brofi gallu'r bardd. Mewn cystadleuaeth fel hyn, rhaid dweud nad oes dim newydd yma, clywsom y moliant hwn i natur o'r blaen – ond nid yw Dol Ystwyth yn waeth o hynny.

**Taid**

Coeden deulu yw'r goedwig yma gan un sy'n sicr o fod yn fardd o allu arbennig. Pery ei ddehongliad o'i hanes gryn gyffro ar adegau. Daeth yn uchel yn y gystadleuaeth er bod rhai manion walllau a mae'r pennill olaf yn dangos straen mynegiant. Serch hynny, mae yma syniad da sy'n cael ei fynegi'n grefftus.

**Efa**

Mae hon yn delyneg bwerus iawn efo llawer o feddwl wedi mynd i'w chynllunio. Anobaith yng ngwreiddiau fforest (ein bodolaeth efallai) eto yn ein hatgoffa o'r fforest sy'n dod i'r golwg ar draeth y Borth. Gwêl Efa ddynolryw yn ninistr y fforest. Cerdd gynnil, grefftus mewn cystadleuaeth dynn iawn.

**MEM**

Ysbrydolir y gerdd wrth i'r bardd gerdded drwy goedwig hynafol traeth y Borth. Synfyfyria ar hanes Cantre'r Gwaelod gan dybio fod cymaint o fai ar ddialedd Mererid ar ei chariad meddw Seithenyn. Mae'r gerdd yn ychwanegu at yr hen stori gan ddyfod â digwyddiad cyfoes i'r stori. Braidd yn ryddieithol yw'r gerdd hyd at y rhan olaf lle mae'n wirioneddol afaelgar at y diwedd. Mae ambell i gymal yma angen ei dwtio ond cerdd hyfryd, ddiddorol.

**Tachwedd**

Cywydd yn adrodd hanes y storm y gaeaf diwethaf ac yn datgelu yr hen goedwig neolithig ar draeth y Borth. Ar wahân i ddisgrifio'r difrod tiriaethol, mae hefyd yn gynnil iawn yn awgrymu ein dinodedd ni a'n heiddilwch, ond er hynny, o'r wig y cawn ninnau ein rhuddin a'n gwreiddiau. At ei gilydd mae'r mynegiant yn glir a chrefftus. Mae'n gywydd da iawn. Ambell dro teimlwn fod y mynegiant yn cael trafferth i redeg o linell i linell – gwelir hyn yn y defnydd gormodol o gomas yn y pennill cyntaf. Ond fel y cyfeiriwyd eisioes, mae'n gywydd arbennig o dda ac wrth draed y gadair.

**Rwy'n Well**

Heb os, cerdd Rwy'n Well yw cerdd fwyaf ingol y gystadleuaeth. Mae'r bardd yn mynd â ni i lawr i goedwig iselder ysbryd. Nid yw creaduriaid natur yn gorfoleddu bywyd fel y portreadir gan rai beirdd yn y gystadleuaeth, ond maent yn ysglyfaethus a'r gwrychoedd yn crogi pob ymdeimlad. Yr unig obaith yma yw y bydd cariad plentyn y bardd rhywddydd yn ei thynnu allan o'r goedwig hon. Mae'r gerdd wedi ei gweu yn dynn, does dim geiriau llanw yma, pob delwedd yn llanw ei lle, ac er dwysed y mater a draddodir, y mae hi'n 'canu' fel y dywedai'r diweddar Iwan Llwyd. Mae hi'n brofiad ysgytwol i ddarllen y gerdd hon.

Dyna air byr am y cerddi. Fel y nodais ar y cychwyn, mae hon yn gystadleuaeth arbennig o dda. Daw Tachwedd, MEM, Efa a Taid yn agos i'r brig ond mae cerdd ingol Rwy'n Well ar y blaen iddynt. Felly, am gerdd a roddodd fwynhad a gobaith ar y diwedd wedi'r tywyllwch, cadeirier Rwy'n Well.

# Telyneg – Egin

**Bob**
Disgrifiad o dwf yr hedyn Cymreig yn Aberhonddu a ddatblygodd if od yn Ysgol y Bannau, ysgol a fu'n meithrin yr egin. Syniad da wedi ei fynegi yn grefftus ar y cyfan. Ambell gymal heb naws telynegol e.e. "y fath gynhaeaf helaeth". Ond mae fflach o newydd-deb i'r testun yn hon.

**Ffarmwr Bach**
Telyneg rhwydd iawn yn dilyn hynt yr hedyn hyd nes try yr egin yn rawn yn yr ysgubor. Teimlo nad yw hi'n cyrraedd i ddiweddglo arbennig. Bron na fedren ni wybod i ble roedd hi'n mynd o'r pennill cyntaf. Ond mae yma naws wledig hyfryd i'r gân.

**Bryneiddwen**
Darlun effeithiol o ddatblygiad hedyn mewn ffurf o blentyn, ond y mae'n gwywo yn y ffurf o egin. Collwyd ychydig o'r grefft gynnil sydd gan Bryneiddwen wrth ail adrodd y gair "wnaeth" yn y pennill olaf. Rydym yn dal i'w glywed o'r ail bennill. Telyneg sy'n canu'n rhwydd a syml fel y dylai telyneg wneud.

**Arwyn**
Penillion syml yn darlunio natur yn y gwanwyn ac yn cloi gyda'r tro sydyn at Grist ar y groes. Er cystal y dweud a'r darlunio, teimlir bod Arwyn wedi llusgo Crist i mewn i'r stori, byddai'n well cadw at fyd natur yn fy marn i.

**H2O**
Hen stori sydd gan H20, wedi ei hadrodd yn ddifyr yn null yr hen delynegwyr. Er bod hadau drudfawr wedi eu datblygu yn y Fridfa Fawr (Gogerddan efallai!) doedd dim gobaith iddynt wedi glawogydd mawr eleni. Efallai bod mynegiant yn llac ar brydiau ond mae'n gân fach digon diffuant.

**Dant Y Llew**
Dau bennill vers libre ond yn parchu y rhythm. Dyw'r eginyn yn ddim yn llaw y bardd (yn y pennill cyntaf), ond yn llaw y pridd mae'n wyrth ac yn helaethu fel y gwyddom. Dyma gynnildeb ac yn amlwg fod y bardd wedi myfyrio'n galed cyn cyflwyno'r delyneg hyfryd hon. Rwy'n amau gwerth y gair 'diau' ar y diwedd ond efallai mai dallineb y beirniad sy'n gyfrifol am hynny. Llawn haeddu ennill y wobr.

# Englyn Digri – Pry Copyn

**Phobia**

Nid yw Phobia wedi cael gafael ar y gynghanedd eto. Mae rhif y sillafau yn gywir a hefyd y strôc. Gwyliwch y cwpled olaf (yr esgyll) – rhaid i un brif odl fod yn unsill (acennog) a'r llall yn lluosill (diacen). Dau air deusill sy'n odli yma.

**Hwfer**

Nid yw wedi llwyr feistroli'r gynghanedd eto ond mae Hwfer bron yno – dallier ati. Mân wallau ydyn nhw.

**Jac y Do**

Englyn da. Digon i godi ofn ar rai! Y llinell olaf yn syrthio braidd wedi adeiladau'n gynhyrfus yn y dair gyntaf.

**Meistr y We**

Syniad da yma. Amlwg nad oes gan 'Meistr y We' lawer o olwg ar bry cop! Braidd yn stiff yw'r odl lusg yn y linell gyntaf er yn dechnegol, ei bod yn gywir. Hwn yw englyn gorau'r gystadleuaeth a felly'n ennill y wobr.

# Stori Fer – Ar Goll

Stori ac iddi syniad da wedi ei rhoi at ei gilydd yn grefftus. Dychwela Helmut i dy y bu ynddo yn edrych am Iddewon pan oedd yn aelod o'r Natsiaid ddegawdau ynghynt – ty ble y cyfarfu efo merch ifanc. Heddiw, mae'n cyfarfod â'r ferch eto ac yn dychwelyd iddi ddarn gwyddbwyll a dorrwyd flynyddoedd yn ôl. Yn anffodus, mae yma wallau treiglo yn y stori a chawn ambell i drosiad Saesneg anfaddeuol fel "Y llinell waelod oedd". Ymdrech dda serch hynny.

**Un O'r Colledig**
Stori fer am hanes tadcu poblogaidd yn cael ei daro'n wael gan ganser ac yn anffodus yn marw a gawn gan Un O'r Colledig. Braidd yn rhy ddisgrifiadol yw'r stori hon, does dim cynnildeb yma o gwbl – pentyrir ffaith ar ôl ffaith foel. Mae'n amlwg fod gan yr wyrion garaid mawr at eu tadcu ac daw hyn drosodd yn effeithiol. Ond does dim tro yn y gynffon yma.

**Glas y Dorlan**
Stori am ddynes mewn oed sydd wedi colli'i chof yn mynd ar goll ac yn mynd i edrych am yr hen gartref a gawn ni yma. Mae'r brawddegau'n fyr, sy'n rhoi'r teimlad i ni o sut mae meddwl y ddynes yn rasio wrth edrych am wahanol lefydd a thrio ffeindio'i ffordd yn ôl i'r hen gartref. Caiff y disgrifio hyn ei glymu'n gelfydd efo merch y ddyned yn ffonio'r heddlu wrth edrych amdani. Mae'r iaith braidd yn lletchwith ar adegau, gyda dechrau brawddegau megis "Ydy rhywun yn byw yn y capel" yn wallus. Ymdrech dda serch hynny.

**Sioned**
Mae yma syniad da am hen wraig yn dianc o gartref ac yn setlo i lawr mewn hen fwthyn i aros am ei chariad yn ôl o'r rhyfel. Yn anffodus, mae'r arddull yn gadael Sioned i lawr. Does yna ddim cynildeb yma o gwbl, dim ond disgrifio moel. Ceir ambell i fflach o ysgrifennu diddorol ond prin yw'r rhain. Rhaid ceisio bod yn fwy cynnil gan awgrymu yn hytrach na dweud yr amlwg.

**Glanllyn**
Mae Glanllyn yn mynd yn ôl i fro ei mebyd i edrych am hen lefydd yr unwaith yr adnabu ac yn mynd ar goll yn y niwl. Does dim llawer i'r stori yma a mae'r ysgrifennu braidd yn ddi fflach ar adegau. Fel efo nifer, mae yma ddiffyg cynildeb. Gyliwch rhag gwallau teipio hefyd.

**Henaint Ni Ddaw Ei Hunan**
Stori fer am blentyn ysgol ar goll wedi diwrnod yn yr ysgol. Wedi dechrau da, gyda disgrifio effeithiol ac ysgrifennu cynnil, mae'r canol, ble y disgrifir y diwrnod yn yr ysgol braidd yn undonog a chollir peth o gynildeb y cychwyn. Mae'r diwedd yn gwella, gyda'r awgrym mai hen ddyn yw Ifan sydd wedi bod ar goll ac yn cofio nol i'w ddyddiau ysgol, gyda'r meddwl erbyn hyn wedi pallu. Syniad da, gyda rhannau da ac ambell i ddarn ddim cystal.  Haeddu'r wobr gyntaf mewn cystadleuaeth braidd yn siomedig.

# Brawddeg – Gwanwyn

Enillydd yw Myfi am y frawddeg:

"Gwelais wrth Aber neithiwr wyth ymlafwr nwydus"
gyda'i ymdrech arall yn ail agos:

"Galifantio wnaeth Arwel nes wedd yn nacyrd"

# Soned – Sychder

**Menna Lili**
Darlun uniongyrchol byw o'r sefyllfa yng ngwledydd y trydydd byd a geir yma. Mae'n soned sydd wedi ei chynllunio'n grefftus gan fardd cyfarwydd â'i waith. Nid yw'n gorymdrechu i gyflwyno ei neges.

**Dyhead**
Syched am gawodydd o'r Ysbryd Glân ar gyfnodau cras yn hanes ein crefydd sydd gan Dyhead. Defnyddia dermau Beiblaidd yn ddigon effeithiol i ddarlunio'r sefyllfa dorcalonus sy'n wynebu crefydd heddiw. Soned grefftus eto efo'r neges yn glir a'i hadeiladwaith yn gadarn.

Y ddwy soned yn wastad iawn – methu gwahaniaethu felly am rannu'r wobr.

# Erthygl yn addas i gylchgrawn amaethyddol

**Ifan**

Cwyno tipyn ar ei fyd y mae Ifan, yn benodol am y dirywiad mewn byd natur a byd amaeth dros y 60 mlynedd diwethaf. Tra bod lle mewn erthygl i gwyno ac i ladd ar weinidogion amaeth, hoffwn fod wedi gweld rhyw ychydig o bositifrwydd yndddi yn rhywle gan fod yna waith da yn mynd ymlaen heddiw ar ffermydd sydd wedi arallgyfeirio ayyb. Ymdrech dda serch hynny.

**Briallu Mair**

Erthygl amserol yn rhybuddio am beryglon ym myd amaeth yn dilyn yr holl law a gafwyd yn ddiweddar. Mae Briallu Mair yn cyfeirio'n benodol at wenwyn plwm, afiechydon bacteriolegol, mycosis a phydredd y cnu. Tra y cyflwynir ffeithiau yn effeithiol, braidd yn ddi fflach yw'r ysgrifennu a ni allaf weld hon yn apelio ond at gyfran fechan o bobl.

**Gwas Bach**

Ddim yn siwr am addasrwydd yr erthygl yma i gylchgrawn amaethyddol. Iawn efallai i bapur bro. Yn debyg i rai eraill yn y gystadleuaeth, braidd yn negyddol yw Gwas Bach gan edrych yn ôl i'r gorffennol a hiraethu am y dyddiau a fu.

**Tomos**

Unwaith eto, rwy'n ansicr am addasrwydd erthygl Tomos i gylchgrawn amaethyddol. Cawn Tomos yn hiraethu am ddyddiau gwell yn ardal Llanddewi Brefi. Mwy o atgofion sydd yma nac erthygl. Efallai yn fwy addas i bapur bro ond braf fyddai gweld rhyw ychydig o obaith ynddi rhywle.

**Pantygwail (?)**

Mae Pantygwail hefyd yn cwyno am ddirywiad. Nid dim ond yng nghefn gwlad a'r byd amaethyddol ond am sawl agwedd arall e.e. rhoi clatshen o blentyn. Fel efo ambell un arall, nid ydw i'n siwr am addasrwydd hon i gylchgrawn amaethyddol – byddai'n braf gweld rhyw fath o ganmol yn rhywle.

**Y Ffermwr**

Mae'r Ffermwr yn sôn am effaith technoleg mewn amaethyddiaeth yn ei erthygl. Mae hon yn sicr yn erthygl sy'n apelio at unrhywun, yn enwedig efallai yr ifanc sy'n ymddiddori mewn ffermio a chefn gwlad. Mae hi wedi ei gosod yn effeithiol ac yn edrych yn hynod o drawiadol efo lluniau yn ychwanegu at yr ysgrifennu'n effeithiol. Mae'r ymgeisydd yma yn bendant wedi llwyddo i droi'r dasg o gyflwyno gwybodaeth i erthygl yn llwyddiannus. Llawn haeddu'r wobr gyntaf – da iawn am fod mor bositif am fyd amaeth.

# Adolygiad o Nofel Gymraeg a gyhoeddwyd ers Ionawr 2013

**Iolo**

Adolygiad o *Canu'n y Co* gan Annes Glyn a geir gan Iolo. Mae'n adolygiad da, wedi ei drefnu'n daclus gan ddelio efo'r holl agweddau y disgwyliem i adolygiad wneud. Cawn fras syniad o'r plot, cawn farn am y cymeriadau, arddull, safon yr iaith a chlo sy'n ein hannog i'w darllen. Mae'r cyfan wedi ei ysgrifennu mewn arddull raenus a iaith gywir. Llongyfarchiadau – llawn haeddur wobr.

**Osian M. Jones**